**Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol y Grŵp Trawsbleidiol ar Haemoffilia a Gwaed Halogedig**
**13 Ionawr 2016, 18:00**
**Ystafell Gynadledda 24,Tŷ Hywel**

**Yn bresennol**
Julie Morgan AC (Cadeirydd)
Mick Antoniw AC
William Graham AC
Lynne Kelly Haemoffilia Cymru
Pat Summers: Haemoffilia Cymru
Tony Summers: Haemoffilia Cymru
David Thomas: Haemoffilia Cymru
Ian Thomas
Craig Sugar
Ada Clatworthy
Barabara Sugar
Richard Gorman
Dorothy Woodward

Ymddiheuriadau gan: Eluned Parrott AC, Jeff Cuthbert AC, Lindsay Whittle AC, David Rees AC

Ail-etholwyd Julie Morgan yn Gadeirydd a Lynne Kelly yn Ysgrifennydd. Diolchodd y Grŵp i'r ddwy am eu gwaith drwy gydol y flwyddyn.

Cytunwyd bod pwysau parhaus gan gleifion a'r Grŵp Trawsbleidiol wedi arwain at ariannu'r cyffuriau Hep C newydd a'r Ymgynghorydd Hepatoleg yn Ysbyty Athrofaol Cymru. Mae'r ymgynghoriad i gefnogaeth ariannol yn yr Alban bellach wedi'i gwblhau. Mae cynigion wedi'u hanfon at Lywodraeth yr Alban ac mae disgwyl cyhoeddiad ym mis Ebrill 2016. Roedd David Thomas, Tony Summers a Bev Tumelty wedi bod yng nghyfarfod untro'r Grŵp Cyfeirio a drefnwyd gan yr Adran Iechyd, o dan gadeiryddiaeth hwylusydd annibynnol. Cafodd copi o adroddiad yr hwylusydd ei rannu gydag Aelodau'r Cynulliad. Nid yw Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi dyddiad ar gyfer ymgynghoriad y DU. Clywodd y grŵp gan gleifion yr effeithir arnynt a theuluoedd mewn profedigaeth am y frwydr ariannol y maent yn parhau i'w hwynebu, mae llawer mewn sefyllfa anobeithiol. Mae Haemoffilia Cymru yn parhau i roi grantiau caledi yn fisol i deuluoedd sydd angen cymorth ar unwaith. Cytunwyd fod yr Ymddiriedolaethau a sefydlwyd i helpu i leddfu tlodi yn rhwystr pellach ac yn ffynhonnell barhaus o straen i bawb a oedd yn gorfod ymdrin â hwy.

Camau i’w cymryd: William Graham AC i ysgrifennu at Lywodraeth y DU i ganfod pam fod oedi yn parhau a phryd y byddai'r ymgynghoriad yn dechrau.

Julie Morgan a'r Grŵp Trawsbleidiol i ofyn i Lywodraeth Cymru gadarnhau ei safbwynt yn ymgynghoriad y DU.